

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021

Mae'r Pwyllgor wedi codi 1 pwynt technegol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rhaglith yn cyfeirio at y ffaith bod drafft o'r Rheoliadau wedi ei osod gerbron "the Senedd Cymru" ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae hyn yn anghyson â'r diffiniad, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, o "Senedd Cymru", hynny yw, heb y fannod.

Rydym yn derbyn bod cynnwys y fannod yn wall. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y gwall hwn ei gywiro yn y fersiwn a lofnodir gan y Gweinidog.

Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn.